

CWRDD Â NHW

15 MUNUD



Mae gan Ling radd mewn Peirianeg Sifil gyda Chyfrifiadura a doethuriaeth mewn Modelu Ansawdd Aer. Nawr, mae ymchwil Ling yn edrych ar effeithiau amgylcheddol y diwydiant awyrennau.

Gwylwch Ling yn siarad am ei gyrfa yn y diwydiant Awyrennau.

Trafod:

- Beth yw eich barn am y fideo?
- Beth ydych yn feddwl am yrfa Ling?
- Beth ydych yn feddwl yw peirianeg sifil?



GWEITHGAREDDAU

40 MUNUD

GWNEUD

Byddwch angen: jar wydr, tunffoil, rhew, papur sgrap, matsis, goruchwyliaeth oedolyn.

Mae gan Ling radd doethuriaeth mewn Modelu Ansawdd Aer, yn yr arbrawf hwn byddwn yn creu mwrlwch mewn jar. Mae mwrlwch, yn fath o lygredd aer dwys a dyma beth mae Ling yn ceisio ei osgoi yn y diwydiant hedfan.

1. Yn gyntaf, rinsiwch eich jar, gan adael ychydig o ddefnynnau o ddŵr ar du fewn eich jar.
2. Gwnewch gaead i'r jar allan o dunffoil a'i osod ar ben y jar. Rhowch y caead i un ochr. Gosodwch y rhew ar ben y caead i'w wneud yn oer.
3. Nawr, gofynnwch i oedolyn oleuo matsien a rhoi'r sgrap bach o bapur ar dân yn ofalus. Rhowch y papur yn y jar yn gyflym.
4. Nawr gosodwch y caead tunffoil ar ben y jar a rhoi'r rhew yn ôl ar ben y caead.
5. Gwylwch y mwrlwch yn ffurfio yn eich jar.

Gwylwch [y fideo](#) yma i gael esboniad o pam mae mwrlwch yn ffurfio. Dipyn bach ar goll? Gwylwch y fideo i gael gwybod mwy.

NEU

ARCHWILIO

Byddwch angen: papur, pinnau ysgrifennu, pensiliau lliw.

Mae ymchwil Ling yn edrych ar effeithiau amgylcheddol awyrennau ar yr amgylchedd. Yn y gweithgaredd yma byddwch yn dylunio awyren y dyfodol ac yn ei gwneud mor gyfeillgar i'r amgylchedd â phosibl. Gallwch greu awyren, hofrennydd neu roced hyd yn oed. Meddylwch am:

- O ble mae'r awyren yn cael ei hegri? Yr offer y mae'r awyren yn ei gario?
- Y llygredd sy'n cael ei greu yn ystod esgyniad a glanio. Y defnyddiau y mae'r awyren wedi'u gwneud ohonynt.
- Tynnwch lun o'ch awyren newydd a labelu'r holl nodweddion. Cyflwynwch eich syniadau i bawb yn y dosbarth.



Gweithgaredd ymestyn: Ymchwiliwch i rai o nodweddion awyrennau, rocedi neu hofrennyddion y gallwch eu cynnwys yn nyluniad eich awyren.

